

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog

17 Mawrth 2021

Annwyl Mark,

Materion allanol a chysylltiadau rhynglywodraethol

Rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol pan y'i sefydlwyd oedd ystyried sut y bydd penderfyniad y DU i adael yr UE yn effeithio ar Gymru ac ar drefniadau o fewn y DU.

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod â diddordeb mewn cysylltiadau rhynglywodraethol yn y meysydd sydd wedi'u cynnwys yn ein cylch gwaith. Rydym wedi craffu ar y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynrychioli buddiannau Cymru yn y broses o ymadael â'r UE ac rydym wedi ystyried cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cysylltiadau rhynglywodraethol o fewn y DU.

Rydym wedi galw'n gyson am i Lywodraeth Cymru gael rôl ystyrlon a strwythuredig yn ystod y cyfnod o ymadael â'r UE ac yn ystod y cyfnod o ddatblygu'r cytundeb ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Yn ein hadroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, gwnaethom yr argymhellion a ganlyn:

Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i'w chynnwys yn llawn wrth lunio'i safbwynt ar gyfer y trafodaethau. Dylai gymryd rhan yn uniongyrchol yn y trafodaethau hynny sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli, neu â materion sy'n effeithio ar y meysydd hynny, gan ddefnyddio model Cyngor y Gweinidogion ar gyfer caniatáu i'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd rhan.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddMADY@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddEAAL@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

Er ein bod yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r argymhelliad hwn, ac wedi ymdrechu droeon i ddwyn perswâd ar Lywodraeth y DU i ddatblygu cysylltiadau rhynglywodraethol, mae'n amlwg nad yw'r rôl a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU wedi cwrdd â'r disgwyliadau o bell ffordd.

O ran strwythur, er y bu rhai mân ddatblygiadau strwythurol (er enghraifft, creu Cydbwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE) a Fforwm Gweinidogol newydd ar Fasnach) yr argraff gyffredinol sydd gennym yw bod cysylltiadau rhynglywodraethol wedi gwaethygu yn ystod pum mlynedd y Senedd hon.

Mae penderfyniadau polisi Llywodraeth y DU mewn perthynas â Marchnad Fewnol y DU yn dangos hyn. Roedd hyn yn dangos ei bod yn troi cefn ar y syniad o ddatblygu fframweithiau cyffredin ar sail consensws fel ffordd o reoli marchnad fewnol y DU. Drwy Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, penderfynodd Llywodraeth y DU osod cyfyngiadau newydd o'r brig i lawr ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chyfyngu ar effaith ymarferol deddfau y gallai'r Senedd ddewis eu pasio yn y dyfodol mewn amrywiaeth o feysydd datganoledig.

Fel sawl agwedd arall ar y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit, mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi blaenoriaeth i fuddiannau Lloegr drwy sicrhau bod Gweinidogion y DU, sy'n gweithredu dros Loegr yn unig mewn meysydd polisi datganoledig, yn cael cryn dipyn mwy o bwerau na Gweinidogion cenedloedd eraill y DU.

Drwy ein gwaith cychwynnol o graffu ar Fframweithiau, rydym wedi codi cwr y llen ar gyfraith yr UE a ddargedwir a sut mae hyn yn effeithio ar ddatganoli o'i gymharu â'r sefyllfa pan oedd cyfraith yr UE yn gymwys. Bydd yn bwysig sicrhau nad yw'r Fframweithiau'n ychwanegu at unrhyw anghydbwysedd yn y pŵer rhwng llywodraethau pedair gwlad y DU.

Rydym wedi mynegi pryder am y modd roedd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Lywodraeth y DU i arwain ar nifer o agweddau ar y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit. Mae hyn yn cynnwys llawer o'r is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol er mwyn paratoi'r llyfr statud, ond mae hefyd yn cynnwys meysydd polisi datganoledig arwyddocaol fel amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Rydym o'r farn bod y dull hwn o weithredu wedi rhoi'r Senedd dan anfantais a'i fod wedi gwanhau rheolaeth Lywodraeth Cymru dros y broses.



Maes arall sy'n peri pryder yw'r cyllid sy'n disodli cyllid yr UE. Rydym yn pryderu am y pwerau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn meysydd polisi datganoledig, a hynny'n groes i ddymuniadau'r gweinyddiaethau datganoledig. Rydym yn pryderu am y ffaith mai Llywodraeth y DU fydd yn dosbarthu cyllid rhanbarthol yn y dyfodol, sef rôl mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol amdani ers blynyddoedd lawer. Mae hyn yn newid sylweddol gan ei fod yn cymryd arf hanfodol o ran datblygu polisi oddi wrth Lywodraeth Cymru ac yn ei roi yn nwylo Llywodraeth y DU. Mae'n benderfyniad arall sy'n gwanhau datganoli ac yn llesteirio ymhellach yr ymdrechion i ddatblygu cysylltiadau rhynglywodraethol da.

Mae holl ddeddfwrfeydd datganoledig y DU yn pryderu am gysylltiadau rhynglywodraethol. Cyfeiriodd y Fforwm Rhyng-seneddol ar Brexit at y pryderon hyn droeon.

Mae'r ffaith bod datganoli yn y DU mor anghymesur yn cymhlethu cysylltiadau rhynglywodraethol ymhellach, ac mae hyn yn rhywbeth rydym wedi sylwi arno wrth inni graffu ar gytundebau rhyngwladol y DU. Mewn llythyr ar wahân rydym yn paratoi i'w anfon at y Cwnsler Cyffredinol, rydym yn bwriadu gofyn i ba raddau y mae Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru pan fydd mater yn cael ei gadw'n ôl o safbwynt Cymru, ond nid o safbwyntiau Gogledd Iwerddon a / neu'r Alban.

Wrth i'r Bumed Senedd ddirwyn i ben, mae cysylltiadau rhynglywodraethol y DU ar drai, ac efallai eu bod yn wannach nag y buont ers dechrau datganoli. Gan nad oes unrhyw gynnydd i'w weld o ran diwygio cysylltiadau rhynglywodraethol, ac o ystyried y dystiolaeth sy'n dangos bod Llywodraeth y DU wedi gweithredu'n groes i ewyllys Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, mae'n ymddangos bod cysylltiadau, os rhywbeth, yn gwaethygu.


Yn ein hadroddiad gwaddol, byddwn yn argymhell y dylai pwyllgorau'r Chweched Senedd barhau i roi blaenoriaeth i graffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol.

Mae angen diwygio cysylltiadau rhynglywodraethol yn sylweddol mae'n hanfodol bod y Senedd yn craffu ar y camau nesaf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i symud yr agenda hon ymlaen, i'r graddau y gall wneud hynny.



Drwy holl droeon trwstan proses Brexit, rydych chi, eich Gweinidogion, a'ch swyddogion wedi bod yn barod i ymateb yn gyflym i geisiadau'r Pwyllgor - a hynny ar fyr rybudd weithiau oherwydd digwyddiadau annisgwyl. Gan mai hwn fydd y llythyr olaf y byddaf yn ei anfon atoch mae'n debyg fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am eich parodrwydd i gydweithio â'r Pwyllgor drwy gydol y pum mlynedd diwethaf.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

